Rhif: **WG18518**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

Dyddiad cyhoeddi: **18 Mehefin 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **13 Medi 2013**

# Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl am yr opsiynau a gyflwynwyd yn yr adroddiad am ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol.

**Sut i ymateb**

Dylech anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost/y post i'r cyfeiriad isod erbyn **13 Medi 2013** fan bellaf (nodwch 'Adolygiad o'r ymgynghoriad addysg' yn y blwch pwnc).

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad o Wasanaethau Addysg yng Nghymru
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: educationservicereview@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2013
WG18518

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Y cefndir

Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol ei adroddiad ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru. Daeth i nifer o gasgliadau a gwnaeth nifer o argymhellion mewn perthynas â darparu gwasanaethau addysg. Cydnabu fod safonau addysgol yn amrywio'n fawr ledled Cymru a'i bod yn anodd sicrhau capasiti a galluogrwydd ar lefel uwch sydd o ansawdd da ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod datblygu consortia rhanbarthol yn ffordd bositif o fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau, capasiti a deilliannau. Daeth i'r casgliad hefyd fod rhyddhau adnoddau i'r rheng flaen drwy ddarbodion maint, a'r cyfle i ddarparu gwasanaethau cymorth o ansawdd da iawn i ysgolion yn fanteision sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil diwylliant cydweithredol y consortia rhanbarthol sy'n datblygu.

Yn ogystal, argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad manwl yn ystod hydref 2013 i weld a oes angen cyflwyno rhagor o newidiadau strwythurol er mwyn darparu'r addysg orau bosibl yng Nghymru. Ar 20 Tachwedd 2012, gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad yn cyhoeddi ei fod am gynnal yr adolygiad o ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol yn gynharach. Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Gweinidog fod Robert Hill wedi'i benodi i gynnal yr adolygiad. Y prif nod oedd edrych ar ba mor effeithiol yw'r system bresennol sydd gennym ar gyfer darparu gwasanaethau addysg, ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol, ac ystyried beth y dylid ei wneud ar lefel yr ysgol, ar lefel yr awdurdod lleol, ac ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- codi safonau a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr o bob oedran
- rhoi gwell cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn gwella safonau
- datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- sicrhau gwerth am arian a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol
- sicrhau cydlyniant a chysylltiadau cryf rhwng pob rhan o'r system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 a'r agenda ehangach ar gyfer gwasanaethau plant.

Bellach mae Robert Hill wedi cwblhau ei adolygiad ac wedi cyflwyno'i adroddiad i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r adroddiad yn cyflwyno amrywiaeth eang o opsiynau i'w hystyried gan Weinidogion Cymru sy'n cwmpasu pum maes:

- gwella addysgu a dysgu yn y dosbarth
- cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion
- meithrin rhagor o bartneriaethau rhwng ysgolion
- gwella atebolrwydd
- trefnu swyddogaethau gwella ysgolion.

Mae'r papur hwn yn gwahodd sylwadau ynghylch p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r opsiynau a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae nifer ohonynt eisoes yn rhan o gynllun Gwella ysgolion Llywodraeth Cymru a chaiff y rhain eu datblygu dros y misoedd i ddod.